

Trivallis.

Strategaeth Pobl.



www.trivallis.co.uk

Cyflwyniad


Gweledigaeth

Ein gweledigaeth gyffredinol yw gwella lles cymunedau a'r bobl sy'n byw ynddynt fel y gallant ffynnu.

Mae ein Strategaeth Pobl yn amlinellu sut y byddwn yn cefnogi ein tîm yn y blynyddoedd nesaf i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth. Rydym yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth gref a gwaith tîm i rymuso ein staff i wneud eu gorau a darparu gwasanaeth gwych i'n tenantiaid a'n cymunedau. Rydym am i bob cydweithiwr gael swydd ystyrlon a gwerth chweil sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd o fod yn garedig, cynhwysol, blaengar a dibynadwy. Ein pobl sydd wrth wraidd popeth a wnawn, ac maen nhw'n ein helpu i gyrraedd ein nodau a chreu dyfodol gwell i bawb.

Gwneud y pethau sylfaenol yn iawn

Er ein bod yn cyflwyno mentrau newydd uchelgeisiol, rhaid i ni beidio ag anghofio am ein cyfrifoldebau craidd. Mae'r rhain yn cynnwys:



Datblygu strategaeth

Datblygwyd y strategaeth hon gyda mewnbwn gan ein cydweithwyr, uwch arweinwyr, a'r Bwrdd. Rydym wedi ymwreiddio'r arferion mwyaf effeithiol o wahanol sectorau i sicrhau bod ein dull gweithredu yn gadarn ac yn arloesol.

Ein nodau

Ein prif amcanion yw:

- Gwella galluogrwydd arwain ym mhob rhan o'r sefydliad i wreiddio rheoli ar sail cryfder
- Meithrin diwylliant o gydweithio a chyd-gefnogaeth
- Gwella lles staff
- Gwella boddhad swydd/profiad cydweithwyr
- Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn
- Sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol



Ein dull gweithredu

Byddwn yn canolbwyntio ar wahanol feysydd, pob un â'i gynllun ei hun, i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi ein prif nodau.



Datblygu arweinyddiaeth

Yn Trivallis, credwn fod arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn allweddol er mwyn meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol. Mae ein dull yn seiliedig ar y gred bod pawb yn dod i'r gwaith i wneud eu gorau ac y dylem wneud y gorau o gryfderau unigol, meithrin twf a chynnal cyfathrebu agored.

Byddwn yn cefnogi ein harweinwyr i ddatblygu sgiliau rheoli sy'n seiliedig ar gryfder drwy:

- Hyfforddiant a datblygiad arweinyddiaeth rheolaidd
- Rhaglenni mentora sy'n paru arweinwyr profiadol â phobl dalentog sy'n dod i'r amlwg
- Asesu ein galluogrwydd arwain yn rheolaidd i nodi cryfderau a meysydd datblygu





Diwylliant cydweithredol

Rydym yn ymdrechu i greu diwylliant lle mae cydweithredu yn ail natur i'n holl gydweithwyr o ran sut maen nhw'n gweithio gyda'n tenantiaid a gyda'i gilydd. Mae hwn yn newid ystyrlon i ni. Rydym am feithrin hyder ein cydweithwyr i gofleidio'r model newydd, tîm o amgylch y tenant, gan fabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau a chydweithio â thenantiaid i gyflawni eu canlyniadau gan reoli risg ar hyd y ffordd. Ein nod yw i gydweithwyr weithio ar y cyd â thenantiaid a chydweithwyr eraill, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n tenantiaid a'n cymunedau.

Byddwn yn sicrhau cydweithrediad drwy:

- Ddarparu'r rhaglen gyfathrebu gydweithredol ar draws Trivallis
- Datblygu mentoriaid cyfathrebu gydweithredol
- Sicrhau bod gan gydweithwyr yr amser i gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer myfyriol
- Creu gweithgorau traws-swyddogaethol i fynd i'r afael â heriau sefydliadol
- Annog cyfathrebu agored ac adborth rheolaidd
- Gwreiddio'r model tîm o amgylch y tenant





Iechyd a lles cydweithwyr



Mae sicrhau iechyd a lles ein cydweithwyr yn hollbwysig. Mae gweithlu sy'n ddiogel yn y gwaith, yn iach ac yn hapus yn hanfodol ar gyfer cynnal lefelau uchel o ymgysylltiad, boddhad swydd a pherfformiad cyffredinol.

Mae sicrhau amgylchedd gwaith diogel yn agwedd sylfaenol ar ein hymrwymiad i les staff. Rydym yn cadw at reoliadau iechyd a diogelwch llym i ddiogelu a chadw ein cydweithwyr yn ddiogel yn y gwaith.

Byddwn yn cefnogi iechyd a lles cydweithwyr drwy:

- Hyrwyddo cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy drefniadau gweithio hyblyg
- Darparu mynediad at adnoddau a chymorth iechyd meddwl
- Hyrwyddo moeseg gofal
- Datblygu ein mentrau iechyd a lles



Boddhad swydd/ profiad cydweithwyr

Ein nod yw darparu swyddi ystyrlon a gwerth chweil i'n cydweithwyr sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd o fod yn garedig, cynhwysol, blaengar a dibynadwy. Credwn y bydd mabwysiadu'r dull tîm o amgylch y tenant yn gwella boddhad swydd ac yn helpu cydweithwyr i ddeall sut mae eu rolau yn cefnogi ein tenantiaid. Ein nod yw dod yn gyflogwr lleol o ddewis.

Byddwn yn gwella boddhad swydd/profiad cydweithwyr drwy:

- Ymgorffori'r dull tîm o amgylch y tenant
- Annog cyfathrebu agored ac adborth rheolaidd
- Cynnal adolygiad trylwyr o'n polisïau pobl
- Gwella prosesau hyfforddi a datblygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein gwerthoedd ac yn cael eu hystyried yn gyfleoedd teg a chyfiawn i gydweithwyr
- Adolygu ein dull o dalu a gwobrwyo



Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant

Ein nod yw hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pob cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei barchu, ei werthfawrogi a'i rymuso i wneud ei orau. Trwy feithrin diwylliant cynhwysol, ein nod yw denu a chadw gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn canolbwyntio ar adeiladu amgylchedd cefnogol lle mae safbwyntiau amrywiol yn cael eu cofleidio, a gall pawb ffynnu a llwyddo.

Byddwn yn cefnogi hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant trwy:

- Weithredu polisiau ac arferion sy'n sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u cefndir neu hunaniaeth
- Addysgu cydweithwyr am bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant
- Mynd ati'n weithredol i geisio cael adborth gan gydweithwyr a thenantiaid amrywiol ac ymgorffori'r adborth hwnnw er mwyn gwella ein harferion cyflogaeth a darparu gwasanaethau
- Cefnogi ein cymunedau i gael gwaith drwy brosiectau cyflogadwyedd
- Herio ymddygiad gwahaniaethol yn y gweithle ac yn ein cymunedau
- Archwilio'r potensial i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i gydweithwyr a thenantiaid





Gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Ein nod yw datblygu gweithlu sy'n gallu addasu, sy'n fedrus, ac sy'n barod ar gyfer heriau'r dyfodol; gan sicrhau bod gennym y sgiliau sydd eu hangen i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru a'n bod yn gallu ôl-ffitio ein cartrefi. Byddwn yn cyflawni hyn trwy fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus, cefnogi arloesedd a chofleidio technoleg newydd; gan sicrhau bod ein gweithlu yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi technoleg newydd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio'r doniau gorau, byddwn yn cynnal adolygiad trylwyr o'n harferion recriwtio, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo ein brand fel cyflogwr a thynnu sylw at ein hymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn bwysig oherwydd bydd yn ein helpu i ddenu a chadw gweithlu medrus iawn.

Er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglenni prentisiaeth a chyflogadwyedd a darparu cyfleoedd gyrfa gwerthfawr i'n cymunedau.

Byddwn yn cefnogi cael gweithlu addas ar gyfer y dyfodol trwy:

- Ymgymryd ag archwiliad sgiliau a nodi sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol
- Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi ar gyfer bylchau a nodwyd
- Datblygu cynllun gweithlu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf i lywio cynllunio busnes a chynllunio recriwtio
- Adolygu ein harferion recriwtio a chadw
- Hyrwyddo ein brand fel cyflogwr
- Cydweithio â phartneriaid mewn colegau a diwydiant i ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr
- Datblygu ein rhaglenni prentisiaeth a chyflogadwyedd

Canlyniadau disgwyliedig



Drwy weithredu'r strategaeth hon, rydym yn disgwyl gweld:

- Mwy o fodlonrwydd ymysg tenantiaid
- Mwy o ymgysylltiad a bodlonrwydd ymysg gweithwyr
- Lefelau uwch o gydweithio a gwaith tîm
- Gwell galluogrwydd arwain ar draws pob lefel
- Gwell lefelau cadw staff a llai o drosiant o ran staff
- Gwell darpariaeth gwasanaeth
- Gostyngiad mewn absenoldeb salwch
- Gwell sgôr hyrwyddwr net
- Gwell materion perthynas â gweithwyr
- Gwell canlyniadau recriwtio
- Gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu

Monitro cynnydd

Byddwn yn mesur ac yn adrodd yn rheolaidd ar ein cynnydd drwy:

- Arolygon staff blynyddol a gwiriadau Pulse
- Monitro dangosyddion bodlonrwydd staff
- Monitro ac adrodd ar ein sgôr hyrwyddwr net
- Monitro ac adrodd ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant
- Adborth gan denantiaid bod materion traws-dîm yn cael eu datrys yn effeithiol
- Monitro cwynion tenantiaid
- Monitro sgôr boddhad tenantiaid



Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle ble gall cydweithwyr fod ar eu gorau a gwneud eu gorau. Trwy ddilyn y cynllun hwn, ein nod yw gwella lles ein staff, a'u galluogi i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n tenantiaid a'n cymunedau. Bydd ein gweithredoedd yn cael eu harwain gan degwch, amrywiaeth, cynhwysiant a'n gwerthoedd o fod yn garedig, cynhwysol, blaengar a dibynadwy. Gyda'n gilydd, byddwn yn adeiladu dyfodol mwy disglair i bawb.

Trivallis.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

 **03000 030 888**

 **customerservices@trivallis.co.uk**

Tŷ Pennant
Stryd y Felin
Pontypridd
CF37 2SW

Mae croeso i chi alw heibio yn ystod ein horiau swyddfa:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9.00am – 3.00pm